# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Hybrid - Digital** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 24 Mawrth 2025** |
| Amser: | **10.30** |

## Cofnodion: SC(6)2025(3)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Gw. Anrh. Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Hefin David AS**<br>**Janet Finch-Saunders AS**<br>**Adam Price AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro**<br>**Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Leanne Baker, Prif Swyddog Pobl**<br>**Lisa Bowkett, Prif Swyddog Cyllid, Comisiwn y Senedd**<br>**Stephen Davies, Pennaeth Y Gwasanaethau Cyfreithiol Dros Dro, Comisiwn y Senedd**<br>**Laura Williams, Pennaeth Cyfathrebu, Pennaeth Cyfathrebu**<br>**Valerie Livingston**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Valerie Livingston, Pennaeth Newyddion a Chyfathrebu Strategol** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.b Datgan buddiannau

Gwnaed datganiadau o fuddiant gan Hefin David mewn perthynas â Chyfamod y Lluoedd Arfog a’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Bensiwn (gweler rhagor o fanylion isod).

1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Comisiynwyr ar gofnodion y cyfarfod ar 17 Chwefror 2025.

## 2 Ffyrdd o Weithio - Prosiect Bae 32

Cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y broses cyn-gymhwyso’r contract ar gyfer prosiect Bae 32, a’r amserlen ddangosol ar gyfer y broses o ran deialog gystadleuol.

Nododd Hefin David fod y Pwyllgor Cyllid yn cynnal sesiynau craffu cyhoeddus a phreifat ar brosiect Bae 32 ar 27 Mawrth.

Trafododd y Comisiynwyr yr amserlen ar gyfer y prosiect, ac fe’u hatgoffwyd, pe bai adeilad newydd yn opsiwn a ffefrir, byddai angen ei gwblhau erbyn 2030 ar gyfer ei feddiannu yn 2032. Nodwyd hefyd fod yr amserlen bresennol yn rhagweld y byddai’r Comisiwn yn gwneud penderfyniad ar yr ateb a ffefrir erbyn diwedd y flwyddyn galendr 2025; nid oedd modd hyd yma i lunio’r amserlen ar gyfer y camau nesaf yn dilyn y penderfyniad hwnnw, yn arwain at ddyfarnu’r contract, gan y byddai’n dibynnu ar natur a chyd-destun y penderfyniad o ran yr ateb a ffefrir, nad oedd modd ei ragweld eto.

Nododd y Comisiynwyr gynnydd y prosiect.

## 3 Ymateb i adolygiad y Pwyllgor Busnes o’r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod

Mae'r Pwyllgor Busnes yn adolygu prosesau’r Senedd ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod i nodi beth sy’n gweithio’n dda a beth y gellid ei wella. Mae’r Pwyllgor Busnes wedi ysgrifennu at y Comisiwn yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig i lywio’r gwaith hwn.

Cymeradwyodd y Comisiynwyr y llythyr at y Pwyllgor Busnes.

Caiff y llythyr ei gyhoeddi gan y Pwyllgor Busnes fel rhan o’i Adroddiad, ar ôl cwblhau’r ymgynghoriad cyhoeddus.

## 4 Llythyr at y Pwyllgor Cyllid, y wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei Adroddiad Craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2025-26 ym mis Hydref 2024, gan wneud 17 o argymhellion i'r Comisiwn, ac mae’r Comisiwn wedi darparu ymateb cychwynnol i’r rhain.

Bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu i ymdrin â nifer o argymhellion y Pwyllgor.

Cytunodd y Comisiynwyr ar y llythyr drafft a'r atodiadau.

Bydd y llythyr a'r atodiadau'n cael eu darparu i'r Pwyllgor Cyllid a fydd yn eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Pwyllgor, ar wahân i'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu (Atodiad 3), a fydd yn parhau i fod yn gyfyngedig.

## 5 Cynllun pensiwn Aelodau o'r Senedd: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Fe wnaeth Hefin David ddatgan buddiant fel aelod o'r Bwrdd Pensiynau.
Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i sefydlu rhwng y Bwrdd Taliadau, y Comisiwn a'r Bwrdd Pensiynau ac mae gan bob un o'r rhain rôl yn y gwaith o lywodraethu Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd.
Rhoddwyd gwybod i'r Comisiynwyr am newidiadau i'r ddogfen er mwyn ei diweddaru, i adlewyrchu'r cytundeb presennol rhwng y tri pharti a gofynion presennol y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Bu'r Comisiynwyr yn ystyried y newidiadau i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ac fe'u cymeradwywyd.

## 6 Cyfamod y Lluoedd Arfog

Datganodd Hefin David fuddiant gan fod ei Uwch Weithiwr Achos yn Aelod Wrth Gefn yn yr RAF.

Mae Samuel Kurtz AS, ar ran Grŵp Ceidwadwyr Cymru, wedi gofyn i'r Comisiwn lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog yn ffurfiol ac ymrwymo i'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Er nad yw'r Comisiwn wedi llofnodi'r cyfamod ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn cefnogi cyflogeion sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn neu'r Cadetiaid.
Nododd Janet Finch-Saunders ei chefnogaeth gref i lofnodi'r Cyfamod ac ymuno â'r Cynllun.
Cytunodd y Comisiynwyr ar bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng y Cyfamod a'r Cynllun o ran edrych yn fanwl ar ddichonoldeb y Comisiwn yn dod yn llofnodwr.
Trafododd y Comisiynwyr y cais a gofynnwyd i'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol gynnal adolygiad o ddymunoldeb neu fel arall llofnodi'r Cyfamod a/neu'r Cynllun, a dod â'r argymhellion/opsiynau yn ôl gerbron y Comisiwn i'w hystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol, a rhoi gwybod i Sam Kurtz AS am y penderfyniad hwn.

## 7 Cynigion rhaglen ddogfen ITV Cymru

Gofynnwyd i Gomisiwn y Senedd gymeradwyo cynnig i ddatblygu a ffilmio rhaglen ddogfen ddwyieithog y tu ôl i'r llenni am waith y Senedd, a fyddai'n cynnwys pedair pennod 30 munud o hyd, a gomisiynir ar y cyd gan ITV ac S4C.

Ystyriodd y Comisiynwyr fanylion yr hyn sy'n cael ei gynnig, ynghyd â dadansoddiad o ran cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau (SWOT) y cynnig.

Cytunodd y Comisiynwyr ynghylch pa mor bwysig yw gofyn am eglurder gan ITV ynghylch yr amserlen ar gyfer cynhyrchu a darlledu'r gyfres deledu.

Rhoddodd y Comisiynwyr y dasg o ofyn am eglurder gan ITV ynghylch yr amserlen i'r swyddogion, a dywedodd y Llywydd y bydd hi'n cael sgyrsiau pellach gyda Chadeiryddion y Grwpiau am y cynigion.

## 8 Papurau i'w nodi:

8.a Ymgysylltiad y Gyllideb

Nododd y Comisiynwyr y Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Flynyddol y Comisiwn, i sicrhau y ceir ymgysylltiad a llais yr Aelodau yn y broses o ddatblygu'r Gyllideb.

8.b Deddf Diogelu Gweithwyr – y canllawiau i'r Aelodau wedi'u diweddaru

Nododd y Comisiynwyr y canllawiau a'r dogfennau templed sydd wedi'u cynhyrchu i gynorthwyo'r Aelodau i gydymffurfio â'u dyletswydd fel cyflogwyr o dan Ddeddf Diogelu Gweithwyr (Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010) 2023; i gymryd camau rhesymol i atal aflonyddu rhywiol ar eu gweithwyr.

8.c Diweddariad y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb o benderfyniadau recriwtio a ddarperir fel mater o drefn i bob cyfarfod o'r Comisiwn.

## 9 <u>Unrhyw fater arall</u>

Nododd Adam Price ei fod wedi ysgrifennu at y Prif Weithredwr a'r Clerc ynglŷn â sgiliau Cymraeg staff cymorth yr Aelodau. Gofynnodd am ganiatâd i swyddogion y Comisiwn baratoi ymateb ar gyfer ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar staffio ar gyfer y Seithfed Senedd, o ran sut y gellid adolygu sgiliau iaith yr Aelodau a'u staff.

Trafododd y Comisiynwyr y mater o awdurdodaeth mewn cysylltiad â'r Aelodau fel cyflogwyr.

Cytunwyd y byddai swyddogion y Comisiwn yn gweithio gyda Joyce Watson ac Adam Price, fel deiliaid y portffolios perthnasol, i sefydlu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n cael ei gynnig o ran ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau Annibynnol a'r adolygiad o sgiliau iaith.

Yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf, roedd y Comisiynwyr wedi cytuno:

- Ar lythyr gan Hefin David at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a anfonwyd ar 14 Mawrth 2025, i roi gwybod iddynt am y dull a ddefnyddir i reoli'r gyllideb sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer Diwygio'r Senedd yn ystod y flwyddyn.

Nodasant hefyd:

- lythyr gan y Prif Weithredwr at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a anfonwyd ar 17 Mawrth 2025, ynghylch yr awgrymiadau i annog cyfradd ymateb uwch i arolygon Urddas a Pharch yn y dyfodol gan Aelodau a'u Staff Cymorth, a
- llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a anfonwyd ar 3 Mawrth 2025, ynghylch y Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Hawliau Cyflogaeth ac yn ymwneud â'i gymhwyso o ran y Comisiwn.